Ysgol Cybi

Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion / *Schools E-Safety Policy*

(Fersiwn 1, Rhagfyr 2022 / *Version 1, December 2022*)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu beth y mae angen i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod y prosesau perthnasol ar waith ynghylch e-ddiogelwch a'i bod yn sicrhau cydymffurfiad â pholisïau a deddfwriaeth berthnasol.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar y dudalen Diogelu Data sydd ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines what the school needs to do to ensure that the relevant processes are in place regarding e-safety and that it ensures compliance with relevant policies and legislation.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1/*V1*	Rhagfyr 2022 / *December 2022*	Fersiwn cyntaf o'r polisi / *First version of policy*	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:*	Rhagfyr 2024 / *December 2024*

Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r canllaw hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this guidance in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen: Polisi templed ar brosesau a gofynion e-ddiogelwch.

Document: *Policy template on e-safety processes and requirements.*

Cyfrifoldeb: Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau fod yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion e-ddiogelwch a'r corff llywodraethu i fonitro cydymffurfiad â'r polisi hwn. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau gweithrediad a chydymffurfiaeth gan holl staff yr ysgol.

Responsibility: *It is the responsibility of the Headteacher to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with the requirements of e-safety and for the school governing body to monitor compliance with this policy. It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all school staff.*

Cynnwys **Tudalen**

1. Datganiad Polisi 5
2. Sgôp 5
3. Ddeddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau 5
4. Diffiniadau 6
5. Cyfrifoldebau 9
5.1. Corff Llywodraethu Ysgol 9
5.2. Pennaeth 9
5.3. Holl Staff yr Ysgol 10
5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion 10
6. Beth yw e-ddiogelwch? 10
7. Beth mae cyfathrebu electronig yn ei gynnwys? 11
8. Defnydd o dechnoleg newydd mewn addysg 11
9. Dysgu ac addysgu 12
9.1. Pam bod defnyddio'r rhyngrwyd yn bwysig 12
9.2. Sut mae defnyddio'r rhyngrwyd yn fuddiol i addysg? 12
9.3. Sut all y rhyngrwyd wella dysgu? 13
10. Llwybrau i e-ddiogelwch 13
10.1. Egwyddorion cyffredinol 13
10.2. Cyfathrebu electronig rhwng staff a disgyblion 14
11. Rheoli Systemau Gwybodaeth 14
11.1. Sut cynhelir diogelwch systemau gwybodaeth? 14
11.2. Sut rheoleiddir e-bost? 15
11.3. Sut rheoleiddir cynnwys cyhoeddedig? 16
11.4. A ellir cyhoeddi gwaith neu luniau o ddisgyblion? 16
11.5. Sut rheoleiddir rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol? 16
11.6. Sut rheoleiddir ffiltro? 17
11.7. Sut caiff fideo-gynadledda ei fonitro? 18
11.7.1. Defnyddwyr 18
11.7.2. Cynnwys 18
11.8. Sut caiff dysgu ar-lein ei fonitro? 19
11.8.1. Athrawon yn cytuno i 19
11.8.2. Rhieni/gofalwyr yn cytuno i 20
11.9. Sut mae disgyblion yn dysgu sut i werthuso cynnwys ar y rhyngrwyd? 20
11.10. Sut ellir rheoleiddio'r dechnoleg ddiweddaraf? 21
12. Sut y diogelir data personol? 21
13. Penderfyniadau Polisi 21
13.1. Sut awdurdodir mynediad i'r rhyngrwyd? 21
13.2. Sut asesir risg? 21
13.3. Sut ymdrinnir â chwynion am e-ddiogelwch? 22
13.4. Sut defnyddir y rhyngrwyd ar draws y gymuned? 22
14. Polisi Cyfathrebu 23
14.1. Sut cyflwynir y polisi i'r disgyblion? 23
14.2. Sut trafodir y polisi â staff? 23
14.3. Sut rhennir y polisi â rhieni/gofalwyr? 23
15. Ymateb i ddigwyddiad sy'n peri pryder 23
15.1. Beth yw'r peryglon? 24
15.2. Sut ddylai'r ysgol ymateb? 24

16. Y Fframwaith Cyfreithiol 24
16.1 Cod Plant 25
16.2 Deddfwriaeth Perthnasol 26
17. Enwau a Chyfeiriadau Cyswllt E-ddiogelwch 29
18. Hyfforddiant 30
19. Mynd yn Erbyn y Polisi 30
20. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth 30
ATODIAD A- Ymateb i ddigwyddiad sy'n peri pryder 32
ATODIAD B- Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion- Rhestr Wirio'r Pennaeth 33

English Version **39**

1. Datganiad Polisi

Mae'r ysgol yn cydnabod bod y rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu gwybodaeth yn rhan bwysig o fywyd bob dydd. Mae defnydd diogel ac effeithiol o'r rhyngrwyd, dysgu ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg gwybodaeth bellach yn sgil bywyd hanfodol i ddisgyblion a staff.

E-ddiogelwch yw addysgu am fuddion a risgiau defnyddio technolegau newydd, a darparu camau diogelu ac ymwybyddiaeth sy'n galluogi unigolion i reoli eu profiadau ar-lein.

Mae'r ysgol yn adnabod bod y defnydd o dechnoleg yn cyflwyno heriau a risgiau tu mewn a thu allan i'r ysgol. Mae diogelwch ar-lein yn rhan hanfodol o ddiogelu a bydd yr ysgol yn sicrhau fod bob disgybl ac aelod o staff yn cael eu hamddiffyn rhag niwed posib ar-lein. Rhaid cefnogi disgyblion i allu rheoli ac ymateb i risgiau ar-lein gan y gall mynediad heb ei reoleiddio i'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu gwybodaeth roi disgyblion mewn sefyllfa anodd, amhriodol a pheryglus hyd yn oed.

Mae'n rhaid i'r ysgol fod â phrosesau ar waith i sicrhau y defnyddir TGCh yn gyfrifol, gan sicrhau diogelwch disgyblion. Hefyd, bydd prosesau'n grymuso, yn amddiffyn ac yn addysgu staff ysgol yn eu defnydd o dechnoleg ac yn sefydlu mecanweithiau i nodi, ymyrryd a dwysáu digwyddiad lle y bo'n briodol.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr, contractwyr, asiantaethau, cynrychiolwyr a staff dros dro sy'n gweithio i'r ysgol, ac sydd yn ddefnyddwyr o, systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob mynediad i'r rhyngrwyd a chyfathrebiadau electronig eraill, yn ogystal â rhwydweithio cymdeithasol; cyhoeddi personol a dysgu ar-lein a defnydd o technoleg megis cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu ffôn symudol mewn perthynas â busnes yr ysgol.

3. Ddeddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill yr ysgol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y *Polisi Recordio Sesiynau Ffrydio'n Fyw; Polisi Cadw Recordiadau; Polisi Diogelu Data Ysgolion; Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion; Polisi E-bost Staff Ysgolion, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion; Polisi Ysgolion yn Tynnu Lluniau at Ddibenion Cyhoeddusrwydd; Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion; Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion; Polisi Diogelu; Polisi Amddiffyn Plant; Polisi Ymddygiad Bygythiol; Polisi Disgyblu; Polisi Gwrth-fwlio; Polisi Defnydd Derbyniol* a *Chyfnodau Cadw Ysgolion.*

Mae'r rhain i gyd ar gael ar y dudalen diogelu data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Dylai staff gydymffurfio â *Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol* y CGA (Cyngor y Gweithlu Addysg) - http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn ymwneud ag e-ddiogelwch (gweler adran 17 am ragor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol):

- *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR);*
- *Deddf Diogelu Data 2018;*
- *Cod Plant;*
- *Deddf Troseddau Rhywiol 2003;*
- *Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006;*
- *Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006;*
- *Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990;*
- *Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988;*
- *Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Patentau 1988;*
- *Deddf Trefn Gyhoeddus 1986;*
- *Deddf Plant 1989;*
- *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;*
- *Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959;*
- *Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997;*
- *Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000;*
- *Rheoliadau Telegyfathrebu (Arferion Busnes Cyfreithlon) (Dehongli Cyfathrebu) 2000;*
- *Deddf Cyfathrebu 2003:*
- *Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009;*
- *Y Gyfraith Cwcis*

4. Diffiniadau

Dysgu Cyfunol	Mae dysgu cyfunol yn ddull cyfarwyddiadol sy'n cynnwys cyfuniad o weithgareddau dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Er enghraifft, gall myfyrwyr gwblhau aseiniadau hunan-gyflymder ar-lein erbyn dyddiad penodol ac yna cyfarfod ar y safle neu ar-lein ar gyfer gweithgareddau dysgu ychwanegol.
Dysgu cydamserol (dysgu ar y pryd)	Pan fydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn cwrs dysgu ar-lein ar yr un pryd ond mewn gwahanol leoliadau, fe'i gelwir yn ddysgu cydamserol. Mae dysgu cydamserol yn caniatáu i ddysgwyr ryngweithio â'r hyfforddwr a chyfranogwyr eraill. Gwneir hyn drwy feddalwedd sy'n creu ystafell ddosbarth rithiol.
Dysgu anghydamserol	Mae dysgu anghydamserol yn ddull o addysg lle mae disgyblion yn dysgu'r un cynnwys o wahanol leoedd

(dysgu nad yw'n ddysgu ar y pryd)	(daearyddol) ac ar wahanol adegau. Gall disgyblion gael gafael ar ddeunyddiau, gofyn cwestiynau, ac ymarfer eu medrau ar unrhyw adeg sy'n gweithio iddyn nhw.
Ystafell ddosbarth rithiol	Mae'r ystafell ddosbarth rithiol yn cyfeirio at amgylchedd dysgu ystafell ddosbarth ddigidol sy'n digwydd dros y rhyngrwyd yn hytrach nag mewn ystafell ddosbarth ffisegol. Fe'i gweithredir drwy feddalwedd sy'n caniatáu i athro a myfyrwyr ryngweithio.
Cyfryngau ffrydio	Mae cyfryngau ffrydio yn cyfeirio at fideo a sain sy'n cael ei lawrlwytho i gyfrifiadur o'r rhyngrwyd fel llif parhaus o ddata ac sy'n cael ei chwarae wrth iddo gyrraedd y cyfrifiadur cyrchfan.
Cyfryngau cymdeithasol	Unrhyw blatfform ar-lein sy'n cynnig rhyngweithio amser real rhwng y defnyddiwr ac unigolion neu grwpiau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i lwyfannau cyfathrebu, fforymau trafod ar-lein, blogiau, mannau cydweithredol, gwasanaethau rhannu cyfryngau, apiau micro-flogio a defnyddio gwe-gamerâu.
Gofod cymdeithasol ar-lein	Gofodau ar y rhyngrwyd (safleoedd/tudalennau) lle gallwch gwrdd â phobl eraill a sgwrsio, naill ai mewn amser real (ystafelloedd sgwrsio a sgwrsio byw) neu drwy negeseuon a byrddau negeseuon.
Gwe Fyd-eang (www.)	System wybodaeth ar y rhyngrwyd yw'r We Fyd-eang sy'n caniatáu i ddogfennau gael eu cysylltu â dogfennau eraill drwy ddolenni hyperdestun, gan alluogi'r defnyddiwr i chwilio am wybodaeth drwy symud o un ddogfen i'r llall.
Podledu	Podlediad yw'r arfer o ddefnyddio'r rhyngrwyd i sicrhau bod recordiadau digidol o ddarllediadau ar gael i'w lawrlwytho i gyfrifiadur neu ddyfais symudol.
Ystafell sgwrsio	Tudalen we sy'n cynnwys ffenestr lle gallwch deipio testun i alluogi sgwrs 'amser real' ar ffurf testun gydag unigolion neu grwpiau bach.
Blog / Flog	Gwefan lle mae cofnodion rheolaidd yn cael eu gwneud ar ffurf cyfnodolyn neu ddyddiadur ar-lein. Mae Blog neu 'log gwe' yn aml yn cynnig sylwebaeth neu newyddion ar bwnc penodol tra bod Flog yn defnyddio fideo i ddogfennu eu bywydau bob dydd fel dyddiadur fideo parhaus. Trefnir blogiau yn gronolegol fel arfer a chyda llai o ffurfioldeb na gwefan. Mae llawer o flogiau'n derbyn ac yn ymateb i sylwadau.
Wici	Gwefan neu adnodd tebyg sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ychwanegu a golygu cynnwys gyda'i gilydd.
Porwr	Pecyn meddalwedd neu ap symudol am ddim yw porwr sy'n dangos tudalennau gwe, graffeg a'r rhan fwyaf o gynnwys ar-lein. Mae meddalwedd porwr wedi'i gynllunio'n benodol i drosi cod cyfrifiadurol HTML ac XML yn ddogfennau y gellir eu darllen gan bobl. Mae porwyr yn dangos tudalennau gwe.
Tudalen We	Tudalen we yw'r hyn sydd i'w weld mewn porwr gwe pan fydd ar y rhyngrwyd. Gall tudalennau gynnwys testun,

	ffotograffau, delweddau, diagramau, dolenni, hysbysebion, a mwy ar unrhyw dudalen a welir.
URL	URLau yw cyfeiriadau tudalennau a ffeiliau gwe ar borwr.
Fideo-gynadledda	Mae fideo-gynadledda yn delegyfathrebu ar ffurf fideo-gynhadledd sef cynnal cynhadledd ymysg pobl mewn lleoliadau anghysbell drwy gyfrwng signalau sain a fideo a drosglwyddir.
Seiberfwlio	Unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol neu dechnoleg cyfathrebu i fwlio unigolyn neu grŵp.
E-bost	Negeseuon a ddosberthir drwy ddulliau electronig gan un defnyddiwr cyfrifiadur i un neu fwy o dderbynwyr drwy rwydwaith. Yn ogystal â chynnwys testunol, mae e-bost yn caniatáu i'r anfonwr anfon ffotograffau, fideo neu glipiau sain ar ffurf neu ffeiliau digidol.
Cymhorthion digidol personol (PDAau)	Mae PDA yn gyfrifiadur sy'n ffitio yng nghledr eich llaw i helpu i gasglu gwybodaeth fel cysylltiadau, apwyntiadau, ffeiliau a rhaglenni.
Lawrlwytho	Mae lawrlwytho yn derm eang sy'n disgrifio trosglwyddo rhywbeth ar y rhyngrwyd neu'r We Fyd-eang i gyfrifiadur neu ddyfais arall. Fel arfer, mae llwytho i lawr yn gysylltiedig â chaneuon, cerddoriaeth a ffeiliau meddalwedd.
Bluetooth	System dechnegol yw Bluetooth sy'n caniatáu i bobl gyfnewid gwybodaeth a data gan ddefnyddio gwahanol fathau o ddyfeisiau electronig fel cyfrifiaduron, ffonau symudol, argraffwyr, camerâu fideo ac ati heb ddefnyddio gwifrau.
Data personol	Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol sydd wedi ei adnabod neu y gellir ei adnabod naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth honno. Gellir storio hyn yn electronig, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, meddiannu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, dargadw, diwygio, addasu, altro, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, dileu gwybodaeth neu ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi.
Ap	Mae'r gair "ap" yn dalfyriad ar gyfer *"application"* yn y Saesneg. Mae'n ddarn o feddalwedd sy'n gallu rhedeg drwy borwr gwe neu all-lein ar gyfrifiadur, ac ar ffôn clyfar, tabled neu ddyfeisiau electronig eraill.
Storio Cwmwl	Mae storio cwmwl yn fodel cyfrifiadura cwmwl lle caiff data ei storio ar weinyddion o bell a gyrchir o'r rhyngrwyd, neu "gwmwl". Mae'n cael ei gynnal, ei weithredu a'i reoli gan ddarparwr gwasanaeth storio cwmwl ar weinyddion storio sy'n cael eu hadeiladu ar dechnegau rhithiol.
Systemau Gwybodaeth	Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.
Digwyddiad Diogelwch Data	Toriad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu Ysgol
Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am:

- fonitro cydymffurfiad ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol yn ymwneud â'r polisi hwn;
- sicrhau y gall yr ysgol dystiolaethu cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data.
- ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant e-ddiogelwch a gynhigir.

5.2. Y Pennaeth
Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn a'r holl bolisïau sy'n ymwneud ag e-ddiogelwch;
- rhannu'r polisi hwn gyda holl staff a gwirfoddolwyr yr ysgol;
- sicrhau bod data personol o fewn yr ysgol yn cael ei gadw ac ei brosesu yn unol â'r *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018;*
- penodi aelod penodol o staff a fydd yn gyfrifol am e-ddiogelwch/TGCh a bod y person hwn yn cael cymorth digonol gan staff eraill yr ysgol ac yn rhoi cymorth iddynt, yn enwedig yr uwch berson dynodedig ar gyfer diogelu;
- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol mewn e-ddiogelwch a bod hyn yn cael blaenoriaeth uchel ar draws yr ysgol;
- trafod ac adolygu manylion y trefniadau e-ddiogelwch gyda holl staff yr ysgol yn rheolaidd;
- sicrhau bod proses ar waith i ddiogelu'r holl wybodaeth bersonol a chategori arbennig yn yr ysgol;
- pennu lefel y mynediad sydd i'w roi i unigolion penodol;
- adolygu a chadw Cofrestr Asedau Gwybodaeth a Cofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA) yr ysgol yn gyfredol;
- cael arweiniad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar gytundebau sy'n ymwneud ag apiau, meddalwedd a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu ar e-ddiogelwch fel rhan hanfodol o'r cwricwlwm;
- sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o bob digwyddiad e-ddiogelwch a bod y rhain yn cael eu hadrodd i'r uwch dîm arweinyddol;
- rheoli a monitro risgiau ac asedau gwybodaeth o fewn yr ysgol;
- sicrhau bod y camau angenrheidiol wedi'u cymryd i ddiogelu'r seilwaith technegol a bodloni gofynion technegol systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol;
- cynnal archwiliadau mewnol sydd yn monitro cydymffurfiad;
- sicrhau bod proses gadarn ar waith i ganfod a nodi achosion o dor-rheolau data; ymchwilio ac asesu achosion o dor-rheolau data gan gynnwys risgiau a

rhannu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion;
- cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wrth weithredu neu newid proses neu system, er mwyn penderfynu a oes angen DPIA ai peidio;
- sefydlu diwylliant o adrodd a dysgu er mwyn galluogi'r ysgol sefydlu lle mae problemau yn bodoli ac i ddatblygu strategaethau gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion er mwyn atal problemau rhag godi yn y dyfodol.

5.3. Holl Staff yr Ysgol

Mae'r holl staff sy'n cael eu cyflogi neu'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cymorthyddion dosbarth a staff cymorth busnes, yn gyfrifol am:

- ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn unol â'r polisi hwn a'r hyfforddiant a ddarperir;
- sicrhau diogelwch a lles pobl eraill, ar-lein ac all-lein;
- bod yn ymwybodol o'r broses o gael gafael ar gymorth ac arweiniad sy'n ymwneud â chodi pryderon ac ymateb i bryderon diogelwch ar-lein a cheisio cymorth ac arweiniad sy'n ymwneud â hynny;
- gweithio'n ddiogel ac yn gyfrifol, i fodelu ymddygiad cadarnhaol ar-lein ac i reoli safonau ac arferion proffesiynol wrth ddefnyddio technoleg;
- ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant e-ddiogelwch a gynhigir.

5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- fonitro gweithrediad a chydymffurfiad yr ysgol âr polisi ac i fonitro trefniadau diogelwch o fewn yr ysgol;
- roi arweiniad i ysgolion ar gytundebau sy'n ymwneud ag apiau, meddalwedd a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- sicrhau bod staff yr ysgol wedi'u hyfforddi'n ddigonol mewn perthynas ag e-ddiogelwch;
- cynorthwyo'r Pennaeth i benderfynu a oes angen DPIA ai peidio wrth weithredu neu newid proses neu system (gan ddefnyddio technolegau newydd);
- darparu cyngor a chymorth ac arwain ar adrodd am achosion o dor-rheolau data.

6. Beth yw e-ddiogelwch?

Nid yn unig y mae e-ddiogelwch yn cynnwys technoleg rhyngrwyd ond hefyd ffurfiau electronig o gyfathrebu megis ffonau symudol a thechnoleg ddiwifr. Mae e-ddiogelwch yn sefydlu mesurau diogelu ac yn annog ymwybyddiaeth, gan sicrhau bod defnyddwyr yn rheoli eu profiadau ar-lein mewn modd diogel a chadarnhaol.

Mae'r rhyngrwyd yn sianel gyfathrebu agored y mae unrhyw un yn rhydd i'w defnyddio. Gall y We Fyd-eang, e-bost, blogiau a rhwydweithio cymdeithasol

drosglwyddo gwybodaeth ledled y byd drwy'r rhyngrwyd am ychydig iawn o gost. Gall unrhyw un anfon negeseuon, trafod syniadau a chyhoeddi deunydd heb lawer o gyfyngiadau. Mae hyn yn gwneud y rhyngrwyd yn adnodd amhrisiadwy a ddefnyddir gan filiynau o bobl bob dydd.

Cyhoeddir llawer o'r deunydd a geir ar y rhyngrwyd ar gyfer oedolion, ac mae rhywfaint ohono'n amhriodol i blant. Gellir dod o hyd i wybodaeth hefyd am arfau, troseddau a hiliaeth, a dyma'r ffordd hawsaf o gael gafael ar wybodaeth o'r fath. Mae angen i ddisgyblion hefyd ddysgu y gall cyhoeddi deunydd personol beryglu eu diogelwch personol a diogelwch pobl eraill.

7. Beth mae cyfathrebu'n electronig yn ei gynnwys?

Gall cyfathrebu electronig gynnwys gwahanol ddulliau ac arddulliau cyfathrebu sy'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- ffyrdd o ryngweithio ar y rhyngrwyd: safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gwe-logiau (blogiau);
- dysgu ar-lein; dysgu drwy ystafell ddosbarth rithwir drwy'r rhyngrwyd (dysgu cydamserol a dysgu anghydamserol);
- ymchwil ar y rhyngrwyd: gwefannau, peiriannau chwilio a phorwyr gwe;
- ffonau symudol a chymhorthion digidol personol (PDAs);
- cyfathrebu drwy'r rhyngrwyd: e-bost a negeseuon gwib;
- gwe-gamerâu a fideo-gynadledda;
- consolau gemau di-wifr.

Mae technoleg ffonau symudol wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf - ac mae'n parhau i esblygu. Mae cysylltiadau di-wifr yn arbennig wedi ymestyn galluoedd ffonau symudol, gan alluogi mynediad i ystod eang o gynnwys a gwasanaethau newydd yn fyd-eang. Mae llawer o ffonau bellach yn cynnig mynediad i'r rhyngrwyd ac e-bost, ochr yn ochr â swyddogaethau safonol negeseuon, camera, fideo a recordio sain amlaf. Mae ffonau symudol, ochr yn ochr â mathau eraill o dechnoleg, yn newid y ffordd a'r cyflymder yr ydym yn cyfathrebu.

Dylai rhieni ac athrawon fod yn ymwybodol bod gan y rhyngrwyd fannau a rhwydweithiau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg ar-lein sy'n caniatáu i unigolion gyhoeddi cynnwys di-gyfyngol.

Mae ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa yn bwysig i ddatblygiad iaith ac yn sgil bywyd hanfodol. Fodd bynnag, dylid annog myfyrwyr i fod yn ofalus ynghylch datgelu gormod o wybodaeth bersonol ac am yr anhawster o gael gwared ar destun amhriodol, delweddau neu gynnwys arall unwaith y caiff ei gyhoeddi.

8. Defnydd o dechnoleg newydd mewn addysg

Dylid ymchwilio i dechnolegau newydd er mwyn asesu eu budd addysgol, a rhaid gwneud **asesiad risg** cyn rhoi caniatâd i ddefnyddio'r dechnoleg yn yr ysgol.

Mae ysgolion yn defnyddio amrywiaeth eang o dechnolegau a chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys:

- ffonau symudol sy'n cael eu pweru gan gyfrifiadur y gellir eu cysylltu â'r rhyngrwyd, Bluetooth a chamera isgoch;
- dysgu ar-lein drwy dechnolegau fel Microsoft Teams a Google Classroom y tu allan i'r ysgol;
- amgylcheddau dysgu newydd fel Moodle a llwyfannau dysgu eraill;
- sgiliau meddwl sy'n cael eu herio gan gemau ac efelychiadau;
- negeseuon llais ar y rhyngrwyd fel Skype a linc IWB;
- adrodd straeon digidol sy'n cynnwys meddwl annibynnol a hunan-gymhelliant;
- podledu, darlledu a recordio gwersi;
- fideo digidol.

Gall rhai o'r technolegau hyn ddiflannu. Bydd eraill yn esblygu. Yr hyn sy'n bwysig yw cyfuno gallu pobl ifanc i arbrofi gyda doethineb athrawon er mwyn datblygu'r defnydd priodol, effeithiol a diogel o dechnoleg mewn dysgu ac addysgu.

9. Dysgu ac addysgu

9.1. <u>Pam bod defnyddio'r rhyngrwyd yn bwysig?</u>

- diben defnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol yw codi safonau addysgol, hwyluso cyrhaeddiad disgyblion, cefnogi gwaith proffesiynol staff a gwella swyddogaethau rheoli'r ysgol;
- mae defnyddio'r rhyngrwyd yn rhan o'r cwricwlwm statudol ac yn offeryn hanfodol ar gyfer dysgu;
- gall y rhyngrwyd ddarparu dysgu y tu allan i'r ysgol megis dysgu ar-lein gartref yn ystod cyfnodau y mae'n rhaid cau ysgolion neu na all disgyblion fynychu'r ysgol;
- mae mynediad i'r rhyngrwyd yn un o hawliau disgyblion sy'n dangos agwedd gyfrifol ac aeddfed tuag at ddefnyddio'r cyfryngau;
- mae'r rhyngrwyd yn elfen hanfodol o fywyd yn yr unfed ganrif ar hugain mewn perthynas ag addysg, busnes a chysylltiadau cymdeithasol. Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i roi mynediad hawdd i ddisgyblion i'r rhyngrwyd fel rhan o'u profiad dysgu;
- mae disgyblion yn gwneud defnydd helaeth o'r rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol, ac mae angen iddynt ddysgu sut i werthuso'r wybodaeth ar y we a bod yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain.

9.2. <u>Sut mae defnyddio'r rhyngrwyd yn fuddiol i addysg?</u>

Mae'r canlynol yn rai o'r buddion o ddefnyddio'r rhyngrwyd mewn addysg:

- mynediad at ddysgu lle bynnag a phryd bynnag y mae'n gyfleus, gan gynnwys dysgu ar-lein gartref ac fel rhan o drefniadau dysgu cyfunol;
- mynediad at adnoddau byd-eang gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau celf;
- bod yn rhan o Hwb (Llwyfan Dysgu Digidol Cenedlaethol) sy'n cysylltu pob ysgol yng Nghymru;
- cyfnewid addysgol a diwylliannol rhwng disgyblion ledled y byd;
- adnoddau galwedigaethol, cymdeithasol a hamdden mewn llyfrgelloedd, clybiau ac yn y cartref;
- mynediad i ddisgyblion a staff at arbenigedd mewn sawl maes;
- datblygiad proffesiynol i staff sy'n gallu manteisio ar ddatblygiadau cenedlaethol, adnoddau addysgol ac arfer effeithiol ar gyfer addysgu'r cwricwlwm;
- cydweithredu ar draws y gwasanaethau cymorth a sefydliadau proffesiynol;
- gwell mynediad at gymorth technegol, gan gynnwys rheoli rhwydweithiau o bell a diweddariadau awtomatig ar gyfer systemau;
- cyfnewid data cwricwlwm a gweinyddol gyda'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru.

9.3. <u>Sut gall defnyddio'r rhyngrwyd wella dysgu?</u>

- bydd y rhyngrwyd yn darparu mynediad i ddysgu ar-lein pan nad yw'r ysgol ar agor neu pan na all disgyblion fynychu'r ysgol i sicrhau bod y dysgu'n parhau;
- bydd mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei gynllunio'n benodol at ddefnydd disgyblion, a bydd yn cynnwys system hidlo sy'n briodol ar gyfer oedran y disgyblion;
- dylai staff roi arweiniad i ddisgyblion am weithgareddau ar-lein a fydd yn cefnogi deilliannau dysgu a gynllunnir yn ôl oedran ac aeddfedrwydd y disgyblion;
- mae disgyblion yn derbyn arweiniad ar ddefnydd derbyniol ac annerbyniol o'r rhyngrwyd, a rhoddir amcanion clir iddynt wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd;
- mae mynediad i'r rhyngrwyd wedi'i gynllunio gyda'r nod o wella ac ymestyn gweithgareddau dysgu. Bydd lefelau mynediad yn cael eu diwygio yn ôl gofyniad y cwricwlwm ac oedran y disgyblion;
- bydd disgyblion yn cael eu haddysgu i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol mewn gwaith ymchwil, gan gynnwys sgiliau sy'n eu galluogi i ddod o hyd i wybodaeth, ei hadalw a'i gwerthuso.

10. Llwybrau i e-ddiogelwch

Rhaid i staff a disgyblion ddeall bod defnyddio rhwydwaith yr ysgol yn fraint y gellir ei dileu ar unrhyw adeg os oes digon o reswm dros wneud hynny. Mae'r ysgol yn gallu monitro'r holl ddefnydd o'r rhwydwaith a'r rhyngrwyd er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion.

10.1. <u>Egwyddorion cyffredinol</u>

Dylai defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ddilyn yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

- mae systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol wedi'u bwriadu'n bennaf at ddefnydd addysgol a rheoli a gweinyddu'r ysgol;
- rhaid dilyn deddfwriaeth diogelu data bob amser;
- rhaid i ddefnyddwyr beidio â cheisio defnyddio systemau at unrhyw ddibenion neu ddeunyddiau anghyfreithlon;
- dylai defnyddwyr gyfathrebu ag eraill mewn modd proffesiynol;
- ni ddylai defnyddwyr ddatgelu eu cyfrinair ac ni ddylent ei ysgrifennu na'i storio lle mae'n bosibl y gallai person arall ei ddwyn;
- ni ddylai defnyddwyr geisio defnyddio enw defnyddiwr neu gyfrinair person arall;
- rhaid i ddefnyddwyr adrodd cyn gynted â phosibl ar unrhyw ddeunydd neu ddigwyddiad sy'n ymddangos yn anghyfreithlon, yn amhriodol neu'n niweidiol i'r person a ddynodir gan yr ysgol;
- ni ddylai staff ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol personol drwy systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol.

10.2. Cyfathrebu electronig rhwng staff a disgyblion

Disgwylir i bob defnyddiwr ddilyn y rheolau etiquette (gwe-etiquette) wrth ddefnyddio'r rhwydwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- bod yn gwrtais;
- defnyddio iaith briodol;
- peidio â defnyddio iaith sarhaus wrth gyfathrebu ag eraill;
- peidio â datgelu eich cyfeiriad, eich rhif ffôn nac unrhyw fanylion eraill amdanoch chi eich hun nac eraill;
- peidio â defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd sy'n ymyrryd â'r ffordd y mae eraill yn defnyddio'r rhwydwaith;
- mae gweithgareddau anghyfreithlon yn cael eu gwahardd;
- ni ellir gwarantu y bydd e-bost yn breifat;
- mae rheolwyr y system yn monitro ac yn gallu cael gafael ar bob e-bost;
- bydd negeseuon sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon neu sy'n cefnogi gweithgareddau o'r fath yn cael eu dwyn i sylw'r awdurdodau.

11. Rheoli Systemau Gwybodaeth

Mae gan yr ysgol fesurau a phrosesau ar waith i sicrhau bod systemau gwybodaeth yn cael eu cynnal a bod ganddynt y mesurau diogelwch gofynnol ar waith a hefyd bod ganddi fesurau priodol ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a gwybodaeth gyhoeddedig yn cael eu diogelu a'u bod yn cael eu rhannu'n briodol.

11.1. Sut cynhelir diogelwch systemau gwybodaeth?

Mae gan yr ysgol y mesurau canlynol mewn lle er mwyn cynnal systemau gwybodaeth:

- bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y mae'n eu defnyddio mor ddiogel ag sy'n rhesymol bosibl drwy

gymryd cyngor ac arweiniad cyfrifol ar y gofynion technegol ar gyfer y systemau hynny;
- ni ddylai dyfeisiau heb eu rheoli cael eu cysylltu i rwydwaith yr ysgol heb gytundeb Uned TGCh Cyngor Sir Ynys Môn;
- bydd yr ysgol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ddiogelwch ei systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu drwy contractwyr/darparwyr cefnogaeth sydd efo'r sgiliau addas;
- bod diogelu rhag firysau yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd;
- mae rhwydwaith yr ysgol wedi ei wahanu i fewn i is-rwydweithiau rhesymegol ac efo wal dân sydd yn unol âg anghenion y defnyddwyr a lefel diogelwch y defnyddwyr ar y rhwydwaith;
- bydd systemau yr ysgol yn darparu mynediad wedi'i hidlo i'r rhyngrwyd ar gyfer pob defnyddiwr fydd yn atal cynnwys anghyfreithlon, gyda hidlo ychwanegol ar gyfer grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr, ar gyfer cynnwys amhriodol yn unol â canllawiau wedi eu creu gan Llywodraeth Cymru- https://hwb.gov.wales/api/storage/b6c34ed3-8499-4ba9-971f-b4299232096e/education-digital-standards_web-filtering_20211012_ll-500551-w-2.pdf
- bydd strategaethau wrth gefn (gan gynnwys gofynion all-lein ac all-safle) yn cael eu hystyried a byddant yn cyfateb i ofynion yr ysgol o ran adalw os bydd trychineb;
- bydd strategaethau diogelwch yn cael eu trafod gyda Gwasanaeth TGCh Cyngor Sir Ynys Môn lle bo hynny'n briodol;
- bydd data personol a anfonir dros y rhyngrwyd yn cael ei amgryptio neu ei wneud yn ddiogel drwy ddulliau eraill;
- rhoddir sylw arbennig i ddiogelu cyfrinair ac amgryptio ar gyfer dyfeisiau sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol a dyfeisiau symudol;
- ni ellir defnyddio dyfais gludadwy heb ganiatâd penodol a chael archwiliad ar gyfer firysau;
- ni roddir caniatâd ar gyfer cyfleusterau system nad ydynt wedi'u cymeradwyo na ffeiliau y gellir eu hactifadu yng ngwaith y disgyblion neu a anfonir drwy e-bost;
- ffeiliau a gedwir ar rwydwaith yr ysgol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd;
- bydd y cydgysylltydd TGCh/rheolwr rhwydwaith yn adolygu capasiti'r system yn rheolaidd;
- gall monitro ychwanegol ddigwydd fel rhan o ymchwiliad yn dilyn tystiolaeth o gamddefnydd ymddangosiadol;
- bydd staff yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion*.

11.2. Sut rheoleiddir e-bost?

Mae gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith i reoleiddio defnydd o e-byst:

- dim ond cyfrifon e-bost a gymeradwyir gan yr ysgol y gall disgyblion eu defnyddio;
- dim ond cyfrifon e-bost swyddogol, ysgol y gall staff eu defnyddio i gyfathrebu â disgyblion;
- rhaid i ddisgyblion hysbysu athro ar unwaith os ydynt yn derbyn e-bost sarhaus;

- rhaid i ddisgyblion beidio â datgelu manylion personol amdanynt eu hunain nac eraill mewn neges e-bost, na threfnu i gwrdd ag unrhyw un heb ganiatâd penodol;
- gall gorddefnyddio negeseuon e-bost cymdeithasol lesteirio dysgu, ac felly mae cyfyngiadau ar waith;
- dylid cymryd gofal wrth e-bostio sefydliadau allanol a dylid ceisio caniatâd cyn anfon e-bost, fel gyda llythyrau wedi'u hysgrifennu ar bapur pennawd;
- ni roddir caniatâd i anfon llythyrau cadwyn i gyfeiriadau eraill:
- bydd staff yr ysgol yn cydymffurfio â *Pholisi E-bost Staff Ysgolion.*

11.3. Sut rheoleiddir cynnwys cyhoeddedig?
Mae gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith i reoleiddio cynnwys cyhoeddedig:

- dylid cynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yr ysgol fel manylion cyswllt ar y wefan. Ni ddylid cyhoeddi gwybodaeth bersonol am staff neu ddisgyblion;
- bydd yr UDA a'r tîm gweinyddol yn gyfrifol yn gyffredinol am olygu'r deunydd a sicrhau ei fod yn gywir ac yn briodol;
- dylid bod yn ofalus wrth gyhoeddi cyfeiriadau e-bost er mwyn osgoi derbyn e-byst sothach;
- dylai gwefan/cyfrifon rhwydwaith cymdeithasol yr ysgol gyfateb i ganllawiau'r ysgol ar gyfer cyhoeddiadau, gan gynnwys parch at eiddo deallusol a hawlfraint;
- bydd staff yr ysgol yn cydymffurfio â *Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* a *Pholisi Tynnu Lluniau at Pwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion.*

11.4. A ellir cyhoeddi gwaith neu luniau o ddisgyblion?
Mae gan yr ysgol fesurau ar waith i sicrhau bod ffotograffau, delweddau a gwybodaeth bersonol ond yn cael eu rhannu dan rai amgylchiadau a gyda'r camau canlynol ar waith:

- lluniau a delweddau sy'n cynnwys disgyblion yn cael eu dewis yn ofalus. Ni ddylai testun sy'n cyd-fynd â lluniau adnabod disgyblion unigol;
- ni ddefnyddir enwau disgyblion yn unman ar wefan yr ysgol na chyfrifon cyfryngau cymdeithasol mewn cysylltiad â ffotograffau a delweddau;
- ceisir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan rieni/gofalwyr cyn i luniau o ddisgyblion gael eu cynnwys ar wefan yr ysgol/cyfrifon cyfryngau cymdeithasol drwy ffurflenni caniatâd. Ni fydd yr ysgol yn rhannu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion heb i rieni/gofalwyr roi caniatâd i wneud hynny;
- dim ond gyda chydsyniad y disgybl a'i rieni/gofalwyr y gellir cyhoeddi gwaith.
- bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Tynnu Lluniau at Ddibenion Cyhoeddusrwydd Ysgolion.*

11.5. Sut rheoleiddir rhwydweithio cymdeithasol a chyhoeddi personol?
Bydd gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith i reoleiddio'r hyn sydd ar gael o ran gwefannau a chyfryngau cymdeithasol a'r hyn a gyhoeddir:

- bydd yr ysgol yn rhwystro/hidlo mynediad i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae gwasanaeth hidlo Cyngor Sir Ynys Môn yn

rhwystro mynediad i nifer o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, mae ysgolion yn gyfrifol am roi gwybodaeth am unrhyw safleoedd eraill y gallai fod angen iddynt eu hidlo/blocio;

- bydd fforymau amhriodol yn cael eu rhwystro;
- cynghorir disgyblion i beidio byth â rhoi unrhyw fanylion personol sy'n rhoi gwybodaeth am eu hunaniaeth neu eu lleoliad. Mae enghreifftiau'n cynnwys enw go iawn, cyfeiriad, rhif ffôn symudol neu rif tŷ, yr ysgol a fynychwyd, cyfeiriadau IM ac e-bost, enwau llawn ffrindiau, diddordebau penodol a chlybiau ac ati;
- dylid dweud wrth ddisgyblion am beidio â chynnwys lluniau personol ar unrhyw ofod rhwydwaith cymdeithasol. Dylent ystyried pa mor gyhoeddus y gallai'r wybodaeth fod, ac ystyried defnyddio ardaloedd preifat. Dylid rhoi cyngor ar unrhyw fanylion cefndir yn y llun a allai adnabod y disgybl neu ei leoliad e.e. rhif tŷ, enw stryd neu ysgol;
- dylid defnyddio cyfrineiriau i ddiogelu blogiau neu wicis swyddogol a wneir gan athrawon, a dylid rhedeg y rhain ar wefan yr ysgol. Dylid cynghori athrawon i beidio â rhedeg mannau rhwydweithio cymdeithasol at ddefnydd personol disgyblion;
- dylid cynghori disgyblion am ddiogelwch a'u hannog i greu cyfrineiriau, gwrthod mynediad i unigolion nad ydynt yn eu hadnabod, a chael eu hyfforddi ar sut i atal negeseuon annymunol. Dylid annog disgyblion i wahodd ffrindiau yn unig, ac i wrthod mynediad i eraill;
- dylid cynghori disgyblion i ymatal rhag cyhoeddi meddyliau preifat penodol, manwl;
- dylai ysgolion fod yn ymwybodol y gall bwlio ddigwydd drwy rwydweithio cymdeithasol, yn enwedig lle sydd wedi'i greu nad yw wedi'i ddiogelu gan gyfrinair ac eraill wedi'u gwahodd i weld sylwadau'r bwli;
- bydd staff yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Tynnu Lluniau at Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion* a *Pholisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion.*

11.6. <u>Sut rheoleiddir ffiltro?</u>
Mae gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith i reoleiddio ffiltro:

- bydd yr ysgol yn gweithio gyda Gwasanaeth TGCh Cyngor Sir Ynys Môn, i sicrhau bod systemau sy'n amddiffyn disgyblion yn cael eu diwygio a'u gwella'n rheolaidd;
- os bydd staff neu ddisgyblion yn darganfod gwefannau amhriodol, rhaid rhoi'r URL i'r Cydgysylltydd TGCh a'r rheolwr systemau, i'w anfon ar unwaith i Ddesg Gymorth Gwasanaethau TG Cyngor Sir Ynys Môn a'i ddosbarthu i bob system ysgol;
- bydd yr holl fynediad i'r rhyngrwyd yn yr ysgol yn cael ei gofnodi;
- bydd defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei fonitro ar hap i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â pholisi'r ysgol;
- mae'r holl fynediad i'r rhyngrwyd yn yr ysgol wedi'i hidlo. O dan amgylchiadau prin, bydd gwir angen osgoi cyfyngiadau technegol drwy ddefnyddio cysylltiad

heb ei hidlo. Dylai'r Pennaeth roi caniatâd personol bob tro y defnyddir y rhyngrwyd heb hidlydd, ac adolygu'r angen am fynediad rheolaidd;
- mae'r ysgol yn defnyddio cyfuniad o fynediad *Walled Garden* a mynediad wedi'i hidlo sy'n briodol ar gyfer oedran disgyblion, i gefnogi amcanion addysgeg;
- mae'r *Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion* yn gydnaws â pholisi'r ysgol o ran disgyblaeth;
- bydd uwch aelodau o staff yn sicrhau bod dulliau hidlo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dulliau hynny'n briodol, yn effeithiol ac yn rhesymol;
- rhaid rhoi gwybod i'r asiantaethau priodol am unrhyw ddeunydd y mae'r ysgol yn credu ei fod yn anghyfreithlon;
- bydd staff yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion.*

11.7. Sut caiff fideo-gynadledda ei fonitro?

Mae gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith ynglŷn â fideo-gynadledda:

- dylid diffodd yr holl offer fideo-gynadledda yn y dosbarth pan nad yw'n cael ei ddefnyddio;
- mae offer sy'n gysylltiedig â Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru yn defnyddio'r system rolau E.164 genedlaethol;
- ni ddylai cyfeiriadau IP allanol fod ar gael i safleoedd eraill;
- ni ddylid cynnwys gwybodaeth gyswllt fideo-gynadledda ar wefan yr ysgol;
- rhaid cadw'r offer yn ddiogel a'i gloi os oes angen pan nad yw'n cael ei ddefnyddio;
- ni ddylid mynd ag offer fideo-gynadledda i ffwrdd o safle'r ysgol heb ganiatâd. Ni ellir monitro na rheoli'r ffordd y defnyddir rhwydwaith ar unrhyw rwydwaith ar wahân i'r rhwydwaith addysgol.

11.7.1. Defnyddwyr

- dylai disgyblion ofyn am ganiatâd yr athro neu'r athrawes sy'n goruchwylio cyn gwneud neu ateb galwad fideo-gynadledda;
- dylai fideo-gynadledda gael ei oruchwylio'n briodol yn ôl oedran y disgyblion;
- rhaid cymryd gofal mawr wrth ddirprwyo'r cyfrifoldeb am ddefnyddio offer fideo-gynadledda y tu allan i oriau ysgol;
- dim ond aelodau allweddol o staff ddylai gael mynediad i'r system fideo-gynadledda, y wefan neu'r dudalen reoli o bell arall sydd ar gael ar systemau mwy;
- dim ond aelodau o staff ddylai gael mynediad at unrhyw fanylion mewngofnodi a chyfrineiriau unigryw ar gyfer y gwasanaethau fideo-gynadledda addysgol, a dylid cadw'r manylion hyn mewn man diogel.

11.7.2. Cynnwys

- wrth recordio gwers fideo-gynadledda, rhaid rhoi'r rheswm dros y recordio ac ar ddechrau'r gynhadledd dylid ei gwneud yn glir i bawb sy'n cymryd rhan bod y gynhadledd yn cael ei recordio;

- rhaid i ddeunydd sy'n cael ei recordio gael ei storio'n ddiogel yn unol â'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion*;
- os cynhwysir deunydd sy'n perthyn i drydydd parti, dylai staff sicrhau bod recordio yn dderbyniol er mwyn osgoi tramgwyddo hawliau eiddo deallusol y trydydd parti;
- mae fideo-gynadledda yn weithgaredd heriol sy'n rhoi amrywiaeth eang o fanteision dysgu i ddisgyblion. Mae paratoi a gwerthuso yn rhannau hanfodol o'r gweithgaredd cyfan;
- dylid cynnal deialog ag eraill sy'n ymwneud â'r gynhadledd cyn cymryd rhan yn y gynhadledd fideo. Os yw'r gynhadledd yn cael ei chynnal ar safle gwahanol, i ffwrdd o'r ysgol, mae'n bwysig ei bod yn darparu deunydd sy'n briodol i'r dosbarth.

11.8. <u>Sut gaiff dysgu ar-lein ei fonitro?</u>
Mae gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith ynglŷn â dysgu ar-lein:

- anogir disgyblion i weithio o leoliad cartref addas a rennir lle maent yn teimlo'n gyfforddus;
- argymhellir bod athrawon a disgyblion yn defnyddio'r cyfleuster sy'n gallu newid neu gymylu arddangosiad cefndir;
- nid oes rhaid i ddisgyblion roi eu camerâu ymlaen - mae troi'r camera ymlaen yn ddewisol;
- mae cytundeb wedi'i sefydlu rhwng yr ysgol (athro) a rhieni/gofalwyr ynghylch disgwyliadau ac ymddygiad disgyblion a rhieni/gofalwyr yn ystod gwersi ar-lein;
- gellir recordio rhai gwersi at ddibenion diogelu. Bydd cyfranogwyr yn cael gwybod pan fydd y wers yn cael ei recordio;
- mae gan yr ysgol *Bolisi Recordio Sesiynau Ffrydio'n Fyw* a *Pholisi Cadw Recordiadau.*
- mae gan yr ysgol ganllaw ar ddysgu ar-lein i'r staff a'r rhieni.

<u>11.8.1. Mae athrawon yn cytuno i:</u>

- fod yn brydlon ar ddechrau a diwedd pob gwers;
- trafod rolau a chyfrifoldebau gyda disgyblion ar ddechrau pob gwers;
- creu a chytuno ar reolau sylfaenol a safonau ymddygiad clir yn seiliedig ar bolisi rheoli ymddygiad cyfredol yr ysgol;
- cyfleu'n glir y disgwylir ymddygiad 'safon ystafell ddosbarth' gan bawb sy'n bresennol;
- sefydlu disgwyliadau o'r dechrau ac egluro'r rheolau drwy roi cyflwyniad i'r sesiwn (e.e. pwy sy'n cael siarad, sut i ofyn cwestiwn neu ofyn am help);
- hysbysu uwch dîm rheoli'r ysgol, disgyblion a rhieni/gofalwyr am unrhyw wersi a drefnwyd, gwersi a ganslwyd neu newidiadau mewn trefniadau;
- sicrhau eu bod yn diweddaru eu hunain ar yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys polisïau diogelwch ar-lein, diogelu a diogelu data;

- atal sefyllfa un-i-un ar ddiwedd dosbarth ar-lein drwy ddatgysylltu'r holl gyfranogwyr ar ddiwedd y wers.

11.8.2. Mae rhieni/gofalwyr yn cytuno i:
Mae rhieni/gofalwyr yn cytuno y bydd eu plentyn yn dilyn y rheolau a'r disgwyliadau defnydd:

- caniateir i'r disgybl ymuno â gwersi ar-lein yr ysgol ar yr amod bod y disgybl fel dysgwr a'r rhiant/gofalwr yn ymrwymo i'r cod ymddygiad;
- rhiant/gofalwr i ymrwymo i ddarllen a thrafod y cod ymddygiad gyda'r disgybl;
- bydd y disgybl yn brydlon i bob gwers;
- mae gan ddisgyblion fynediad i'r ffeiliau perthnasol ar gyfer pob gwers ymlaen llaw ac mae'r deunyddiau wrth law;
- mae dyfais y disgybl (gliniadur/Chromebook/PC ac ati) yn barod cyn i'r wers ddechrau gyda'r disgybl eisoes wedi mewngofnodi i'w gyfrif;
- rhiant/gofalwr i wneud ei orau i sicrhau bod y disgybl wedi'i wisgo'n iawn. Mae rhiant/gofalwr yn deall nad yw gwisgo dillad nos yn cael ei ystyried yn ddillad priodol;
- rhiant/gofalwr i geisio sicrhau bod y disgybl mewn ystafell addas e.e. ystafell fyw neu ystafell fwyta ac ystyried cefndir, ongl camera, preifatrwydd ac ati;
- rhiant/gofalwr i geisio sicrhau nad oes dim byd arall yn digwydd yn yr ystafell e.e. yn ceisio sicrhau nad yw'r brodyr a chwiorydd yn yr ystafell yn chwarae, bod y teledu wedi'i ddiffodd ac nad oes dim yn tynnu sylw nac yn torri ar draws y wers/cyfarfod. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yn gwneud ei orau i sicrhau bod awyrgylch yr ystafell yn addas i'r disgybl gael gwers gyda grŵp o ddisgyblion eraill. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y meicroffon yn cael ei fudo er mwyn atal y sŵn yn yr ystafell rhag tarfu ar y wers;
- mae rhiant/gofalwr yn deall y disgwylir yr un safonau ymddygiad â phe bai'r disgybl yn yr ysgol. Mae rhiant/gofalwr yn deall y bydd yr athro/athrawes yn torri cyswllt os yw'r disgybl yn arddangos unrhyw ymddygiad amhriodol;
- rhiant/gofalwr i geisio sicrhau bod y disgybl yn dangos parch at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein ac yn ceisio cyfrannu at y dosbarth mewn modd cadarnhaol a heb fod yn aflonyddgar ar unrhyw adeg;
- nad oes unrhyw ran o'r wers/cyfarfod yn cael ei recordio ar unrhyw ddyfais nac unrhyw luniau'n cael eu tynnu gan unrhyw un yn y cartref;
- ni fydd rhiant/gofalwr yn ymuno â'r wers/cyfarfod nac yn tarfu arni;
- os oes gan riant/gofalwr bryder, maent yn deall na ddylid mynegi hyn yn ystod y wers/cyfarfod. Gall rhiant/gofalwr drafod y pryder drwy gysylltu â'r ysgol ar ôl y wers.

11.9. Sut mae disgyblion yn dysgu sut i werthuso cynnwys ar y rhyngrwyd?

- bydd yr ysgol yn sicrhau bod deunyddiau a geir o'r rhyngrwyd sy'n cael eu copïo neu eu defnyddio ar adegau eraill gan staff a disgyblion yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint;

- dylid addysgu disgyblion i fod yn ymwybodol iawn o'r deunyddiau y maent yn eu darllen, a dylid dangos iddynt sut i ddilysu gwybodaeth cyn ei derbyn yn gywir;
- bydd disgyblion yn cael eu haddysgu i gydnabod ffynhonnell yr wybodaeth y maent yn ei defnyddio ac i barchu hawlfraint wrth ddefnyddio deunyddiau rhyngrwyd yn eu gwaith.

11.10. Sut gellir rheoleiddio'r dechnoleg ddiweddaraf?
Bydd gan yr ysgol y mesurau canlynol ar waith i reoleiddio technoleg:

- bydd y technolegau diweddaraf yn cael eu harchwilio am eu gwerth addysgol, a bydd asesiad risg yn cael ei wneud cyn rhoi caniatâd i'w defnyddio yn yr ysgol;
- ni ddylid defnyddio ffonau symudol yn ystod gwersi nac yn ystod amser gwersi ffurfiol; gwaharddir negeseuon testun ymosodol neu amhriodol;
- bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion.*

12. Sut y diogelir data personol?

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ei systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data. Caiff data personol ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo a'i ddarparu ar-lein yn unol â'r *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018*.

Bydd pob defnyddiwr yn cydymffurfio â *Pholisi Diogelu Data Ysgolion* a *Pholisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion*, gan gynnwys y gofyniad i storio gwybodaeth yn ddiogel.

Os bydd digwyddiad diogelwch data o ganlyniad i ddefnyddio'r rhyngrwyd, gwefan, cyfrif cyfryngau cymdeithasol, dysgu ar-lein ac ati, bydd yr ysgol yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar unwaith a bydd yn cydymffurfio â'r *Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion.*

13. Penderfyniadau Polisi

13.1. Sut awdurdodir mynediad i'r rhyngrwyd?
- bydd yr ysgol yn cadw cofnod parhaus o bob aelod o staff a disgybl sydd â chaniatâd i gael mynediad at ddolenni electronig yr ysgol;
- rhaid i ddisgyblion wneud cais unigol am fynediad i'r rhyngrwyd drwy gytuno i gydymffurfio â'r rheolau e-ddiogelwch;
- gofynnir i rieni lofnodi a dychwelyd ffurflen sy'n rhoi caniatâd i ddisgyblion gael mynediad i'r rhyngrwyd;
- hysbysir rhieni y bydd disgyblion yn cael mynediad i'r rhyngrwyd dan oruchwyliaeth.

13.2. Sut asesir risg?

Gall technoleg ddarparu diogelwch a sicrwydd; fodd bynnag, mae risgiau cysylltiedig hefyd. Mae angen i ddisgyblion ddeall y risgiau hyn er mwyn eu helpu i ddatblygu strategaethau priodol ar gyfer cadw eu hunain yn ddiogel.

Gellir categoreiddio risgiau i blant a phobl ifanc yn fras o dan y penawdau cynnwys, cyswllt ac ymddygiad a gellir eu rheoli drwy leihau argaeledd, cyfyngu ar fynediad a chynyddu gwydnwch.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo arfer diogel a phriodol drwy sefydlu canllawiau defnydd derbyniol clir a chadarn. Cyflawnir hyn drwy gydbwyso diogelwch rhag camddefnydd posibl gan gydnabod bod technoleg yn arf cyfathrebu effeithiol.

Bydd yr ysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau mai dim ond at ddeunydd priodol y caiff defnyddwyr fynediad ato. Er gwaethaf hyn, oherwydd natur fyd-eang y rhyngrwyd a'i gysylltiadau pwnc, mae'n amhosibl gwarantu na fydd deunydd amhriodol byth yn cael ei gyrchu ar gyfrifiadur ysgol. Ni all yr ysgol na Chyngor Sir Ynys Môn dderbyn cyfrifoldeb am y deunydd a gyrchir nac am unrhyw ganlyniadau a allai ddeillio o ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Efallai y byddai'n briodol cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) ar gyfer mathau o brosesu sy'n debygol o arwain at *risg uchel* i fuddiannau unigolion. Dylid ystyried a oes angen DPIA **cyn** defnyddio unrhyw dechnoleg newydd. Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi cyngor ac arweiniad ynghylch DPIAau.

Gall defnyddio systemau cyfrifiadurol heb ganiatâd neu at ddibenion amhriodol fod yn drosedd o dan *Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.*

Caiff y dulliau o gydnabod, asesu a lleihau'r risgiau eu hadolygu'n rheolaidd.

13.3. <u>Sut ymdrinnir â chwynion am e-ddiogelwch?</u>

- mae uwch aelod o staff yn delio â chwynion am gamddefnyddio'r rhyngrwyd;
- rhaid cyfeirio unrhyw gwynion am staff sy'n cam-ddefnyddio'r rhyngrwyd at y Pennaeth;
- disgyblion a rhieni'n cael gwybod am y weithdrefn gwyno;
- rhaid i rieni a disgyblion weithio mewn partneriaeth â staff i ddatrys materion;
- cynhelir trafodaethau gydag Uned Diogelu'r Cyhoedd Leol yr Heddlu i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â throseddau posibl;
- mae'r cosbau a nodir ym mholisi'r ysgol yn cynnwys y canlynol:

    - cyfweliad/cwnsela gan y pennaeth blwyddyn;
    - hysbysu rhieni a gwarcheidwaid;
    - gwahardd mynediad i'r rhyngrwyd neu gyfrifiadur am gyfnod penodol o amser.

13.4. <u>Sut defnyddir y rhyngrwyd ar draws y gymuned?</u>

- bydd yr ysgol yn cysylltu â sefydliadau lleol i sicrhau bod dull cyffredin o ymdrin ag e-ddiogelwch;
- bydd yr ysgol yn dangos sensitifrwydd wrth ddelio â materion sy'n ymwneud â'r rhyngrwyd y mae disgyblion yn eu darganfod y tu allan i'r ysgol, e.e. safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, ac yn cynnig cyngor priodol.

14. Polisi Cyfathrebu

14.1. Sut cyflwynir y polisi i'r disgyblion?

- bydd rheolau e-ddiogelwch yn cael eu harddangos mewn ystafelloedd sydd â mynediad i'r rhyngrwyd;
- disgyblion yn ymwybodol bod yr holl ddefnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei fonitro;
- cyflwynir rhaglen e-ddiogelwch i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol;
- dylid rhoi canllawiau ar sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn gyfrifol ac yn ddiogel cyn caniatáu mynediad i'r rhyngrwyd;
- bydd modiwl ar e-ddiogelwch yn cael ei gynnwys yn y rhaglenni ABCh/TGCh sy'n cwmpasu'r defnydd o'r rhyngrwyd yn yr ysgol ac yn y cartref.

14.2. Sut trafodir y polisi â staff?

- mae pob aelod o staff yn derbyn copi o *Bolisi E-ddiogelwch* yr ysgol ac esboniad o sut i weithredu'r polisi a phwysigrwydd y polisi;
